Y Comisiwn Etholiadol

Llawlyfr i'r Cyfryngau

Refferendwm ar y system bleidleisio i Senedd y DU

17 Chwefror 2011

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol 2011

Cynnwys

1	Cysylltiadau ac adnoddau	1
2	Pwy yw pwy yn y refferendwm	3
3	Amserlen y refferendwm	6
4	Gwariant ymgyrchu a rheoliadau ar roddion	8
5	Deunyddiau a darllediadau ymgyrchu	14
6	Twyll etholiadol	16
7	Cofrestru i bleidleisio	18
8	Pleidleisio	21
9	Cwestiwn y refferendwm	25
10	Cyfrif y pleidleisiau	27
11	Ar ôl y refferendwm	30
	Atodiad A	31

1 Cysylltiadau ac adnoddau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Llundain
Oriau swyddfa: 020 7271 0704
Tu allan i oriau swyddfa: 07789 920414

Yr Alban
Oriau swyddfa: 0131 225 0211
Tu allan i oriau swyddfa: 07789 920414

Cymru
Oriau swyddfa: 029 2034 6810
Tu allan i oriau swyddfa: 07789 920414

Gogledd Iwerddon
Oriau swyddfa: 028 9089 4028
Tu allan i oriau swyddfa: 07789 920414

Gwefannau

www.electoralcommission.org.uk
Mae ein gwefan gorfforaethol yn cynnwys ardal benodol ar y refferendwm hwn: www.electoralcommission.org.uk/elections/upcoming-elections-and-referendums/uk/referendum.

Mae canolfan gyfryngau ddynodedig i newyddiadurwyr hefyd, lle y gallwch weld llawlyfrau'r cyfryngau yn cwmpasu etholiadau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon: www.electoralcommission.org.uk/news-and-media.

www.aboutmyvote.co.uk/referendum
Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth ar sut i gofrestru a phleidleisio ar gwestiwn y refferendwm. Y wefan fydd y lle cyntaf i ddangos canlyniadau'r refferendwm pan fydd pob Swyddog Cyfrif yn datgan y cyfanswm ar gyfer eu hardal. Bydd pleidleiswyr yn gallu chwilio cyfansymiau yn ôl cod post neu awdurdod lleol.

Gallwch ddilyn y Comisiwn ar Twitter hefyd yn www.twitter.com/ElectoralCommUK.

Delweddau

Mae gennym ystod o ddelweddau cysylltiedig â'r refferendwm a phleidleisio, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/media-resources/press-images, neu drwy gysylltu â swyddfa'r wasg y Comisiwn.

2 Pwy yw pwy yn y refferendwm

Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn annibynnol ar y Llywodraeth, a chafodd ei sefydlu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA 2000). Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mewn etholiadau, Swyddogion Canlyniadau yn unig sy'n gyfrifol am weinyddu'r etholiad a rôl oruchwylio yn unig sydd gan y Comisiwn. Fodd bynnag, mae PPERA 2000 yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r Comisiwn mewn perthynas â chynnal refferenda. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynnig sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm
- cofrestru ymgyrchwyr sy'n dymuno gwario dros £10,000
- pennu 'ymgyrchwyr blaen' i gynrychioli pob canlyniad
- gweinyddu grantiau i ymgyrchwyr blaen
- rheoleiddio a monitro gwariant ymgyrchu, rhoddion a benthyg
- adrodd ar weinyddu'r refferendwm
- cyhoeddi manylion gwariant ymgyrchu gan ymgyrchwyr cofrestredig a rhoddion iddynt

Y Prif Swyddog Cyfrif

Y Prif Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am gynnal y refferendwm, ac am gyhoeddi a sicrhau cywirdeb y canlyniad cyffredinol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn penodi a gall roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Cyfrif lleol a rhanbarthol (gweler isod).

Y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm hwn fydd Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, Jenny Watson. Ymunodd Jenny Watson â'r Comisiwn Etholiadol ym mis Ionawr 2009 fel ail gadeirydd Y Comisiwn.

Mae etholiadau hefyd i awdurdodau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon ar 5 Mai.

Lle mae Swyddogion Cyfrif y refferendwm hefyd yn cyflawni swyddogaeth Swyddogion Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau hyn, mae gan y Prif Swyddogion Cyfrif y pŵer i gyfeirio'r swyddogaethau craidd sy'n gyffredin i'r ddau.

Y Dirprwy Prif Swyddog Cyfrif

Gall y Prif Swyddog Cyfrif benodi Dirprwy Prif Swyddog Cyfrif. Y Dirprwy Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm hwn fydd y Comisiynydd Etholiadol Max Caller CBE.

Mae Max Caller wedi gweithredu fel Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau mewn tri awdurdod lleol ac ef oedd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Llundain ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn 1999.

Swyddogion Cyfrif

Mae Swyddogion Cyfrif yn gweinyddu'r broses bleidleisio yn eu hardal. Mae eu dyletswyddau yn cynnwys cyhoeddi papurau pleidleisio, rhedeg gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn yr ardal honno.

Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi penodi Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r 11 rhanbarth refferendwm ym Mhrydain Fawr a Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon gyfan. Mae'r rhanbarthau hyn yr un peth â'r 12 rhanbarth etholiadol ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop.

Mae Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn cydlynu'r broses bleidleisio yn eu hardal ac yn coladu'r cyfansymiau lleol yn gyfanswm rhanbarthol. Mar rhestr o'r 11 Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r Swyddog Cyfrif i Ogledd Iwerddon ar gael yn Atodiad A.

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Ym Mhrydain Fawr, Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal a chadw'r gofrestr etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol o fewn eu hardal. Mae'n ofynnol ar bob awdurdod lleol benodi ERO.

Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol sy'n gyfrifol am gofrestru etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol.

Ymgyrchwyr cofrestredig ac ymgyrchwyr blaen

Rhaid i unrhyw grŵp neu unigolyn sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 yn ymgyrchu yn y refferendwm gofrestru gyda'r Comisiwn fel 'ymgyrchydd cofrestredig'.

Gall y Comisiwn benodi 'ymgyrchwyr blaen' ar gyfer pob ochr dadl y refferendwm. Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn i ddod yn ymgyrchwyr blaen.

Am fwy o fanylion ar ymgyrchwyr cofrestredig ac ymgyrchwyr blaen, gweler Adran 4 y llawlyfr cyfryngau hwn: 'Gwariant ymgyrchu a rheoliadau ar roddion'.

Person cyfrifol

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gydymffurfio â rheoliadau gwariant, roddion a benthyca a nodwyd mewn deddfwriaeth. Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig benodi 'person cyfrifol' sy'n gyfreithiol gyfrifol am sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau hyn. (Gweler Adran 4, 'Gwariant ymgyrchu a rheoliadau ar roddion'.)

Asiantau refferendwm

Gall ymgyrchwyr cofrestredig benodi asiantau refferendwm. Gall asiantau refferendwm benodi pobl i fynychu gorsafoedd pleidleisio, cyfrif pleidleisiau ac agor pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd (gweler isod).

Asiantau cyfrif, asiantau pleidleisio ac asiantau pleidleisio drwy'r post

Gall asiantau cyfrif arsylwi'r broses gyfrif ar ran ymgyrchwyr, i sicrhau yr ymgymerir â'r cyfrif yn y modd cywir. Gall asiantau gael mynediad i orsafoedd pleidleisio i arsylwi'r pleidleisio. Gall asiantau pleidleisio drwy'r post arsylwi agor pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd. Rhaid i asiantau cyfrif, pleidleisio a phleidleisio drwy'r post gydymffurfio â'r gyfraith sy'n parchu cyfrinachedd y bleidlais.

Arsylwyr etholiadol

Gall unrhyw un wneud cais i'r Comisiwn i fod yn arsylwr yn y refferendwm. Rhaid i arsylwyr gydymffurfio â'r gyfraith mewn perthynas â pharchu cyfrinachedd y bleidlais a chytuno i lynu at God Ymarfer y Comisiwn.

Gall arsylwyr ofyn cwestiynau i staff etholiadol, ymgyrchwyr a phleidleiswyr ac arsylwi'r gweithrediadau yn y bleidlais, y cyfrif a chyhoeddi a derbyn pleidleisiau drwy'r post. Gall cynrychiolwyr y Comisiwn fod yn bresennol ar unrhyw gam o'r bleidlais neu'r cyfrif hefyd.

I gael gwybod mwy am arsylwi'r refferendwm, ewch i dudalen arsylwyr etholiadol gwefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/elections/electoral_observers.

3 Amserlen y refferendwm

Digwyddiad	Dyddiad
Dechrau 'cyfnod y refferendwm'	Dydd Mercher 16 Chwefror 2011
Terfyn amser i 'ymgyrchwyr cofrestredig' wneud cais i fod yn ymgyrchwyr blaen	Dydd Mercher 16 Mawrth 2011
Dechrau ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus y Comisiwn yng Ngogledd Iwerddon	Dydd Llun 28 Mawrth 2011
Dosbarthu llyfryn gwybodaeth y Comisiwn i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon	Dydd Llun 28 Mawrth hyd ddydd Gwener 8 Ebrill 2011
Dyddiad olaf i benodi ymgyrchwyr blaen gan y Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 29 Mawrth 2011
Dechrau ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus y Comisiwn ym Mhrydain Fawr	Dydd Gwener 1 Ebrill 2011
Dosbarthu llyfryn gwybodaeth y Comisiwn i bleidleiswyr ym Mhrydain Fawr	Dydd Llun 4 hyd ddydd Gwener 15 Ebrill 2011
Diwrnod olaf i Swyddogion Cyfrif gyhoeddi hysbysiad y bleidlais ar gyfer y refferendwm	Dydd Gwener 8 Ebrill 2011
Terfyn amser ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy yng Ngogledd Iwerddon	5pm, dydd Llun 11 Ebrill 2011
Terfyn amser ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post ym Mhrydain Fawr	5pm, dydd Iau 14 Ebrill 2011
Diwrnod cyntaf ar gyfer dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post	Ar ôl 5pm, dydd Iau 14 Ebrill 2011
Terfyn amser i gofrestru i bleidleisio	Canol nos, dydd Iau 14 Ebrill 2011 (canol nos, dydd Gwener 15 Ebrill yn yr Alban*)

Digwyddiad	Dyddiad
Terfyn amser ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ym Mhrydain Fawr (ac eithrio mewn argyfyngau meddygol)	5pm, dydd Iau 21 Ebrill 2011
Terfyn amser ar gyfer cofrestru fel 'arsylwr achrededig'	Dydd Iau 28 Ebrill 2011
Terfyn amser i Swyddogion Cyfrif gyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post amnewidiol	5pm, dydd Iau 5 Mai 2011
Diwrnod pleidleisio	7am – 10pm, dydd Iau 5 Mai 2011
Cyfrif pleidleisiau	yn dechrau am 4pm, dydd Gwener 6 Mai 2011
Diwrnod olaf i ymgyrchwyr cofrestredig sydd wedi gwario £250,000 neu lai gyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchu	Dydd Gwener 5 Awst 2011
Diwrnod olaf i ymgyrchwyr cofrestredig sydd wedi gwario mwy na £250,000 gyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchu	Dydd Sadwrn 5 Tachwedd 2011

*Nid yw diwrnodau sy'n wyliau banc yn cael eu cyfrif wrth gyfrifo'r terfyn amser i gofrestru. Mae Llun y Pasg yn ŵyl banc yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae Llun y Pasg yn ŵyl **gyhoeddus** ond heb fod yn ŵyl banc yn yr Alban.

4 Gwariant ymgyrchu a rheoliadau ar roddion

Beth yw cyfnod y refferendwm?

Cyfnod y refferendwm yw'r cyfnod ymgyrchu ffurfiol cyn y refferendwm. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rheolau ar faint y gall ymgyrchwyr ei wario ar ymgyrchu, a rheoliadau ar roddion a dderbynnir gan ymgyrchwyr.

Mae cyfnod y refferendwm ar gyfer y refferendwm yn rhedeg o 16 Chwefror – y dyddiad y derbyniodd y Mesur System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau Gydsyniad Brenhinol – hyd at ddiwedd y bleidlais ar 5 Mai 2011. Nid yw'r gyfraith yn gwahardd ymgyrchwyr rhag ymgyrchu ar ddiwrnod y bleidlais.

Pwy all ymgyrchu yn y refferendwm?

Gall unrhyw grŵp neu unigolyn ymgyrchu yn y refferendwm. Os ydynt yn bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn fel 'ymgyrchydd cofrestredig'.

Dim ond yr unigolion neu'r sefydliadau canlynol a all gofrestru fel ymgyrchwyr:

- unigolyn sy'n preswylio yn y DU neu sydd ar gofrestr etholiadol y DU
- plaid wleidyddol a gofrestrwyd yn y DU
- cwmni a gofrestrwyd yn y DU sy'n gorfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur a gofrestrwyd yn y DU
- cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd yn y DU
- partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig a gofrestrwyd yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu a gofrestrwyd yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig a leolwyd yn y DU sy'n cynnal mwyafrif ei busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

A fyddai'n rhaid i bapur newydd neu ddarlledwr gofrestru fel ymgyrchydd?

Na. Mae cyhoeddi unrhyw ddeunydd – ac eithrio hysbyseb – mewn papur newydd, cyfnodolyn neu gan ddarlledwr wedi'i eithrio'n benodol rhag rheoliadau gwariant, sy'n golygu na fyddai'n rhaid iddynt gofrestru fel ymgyrchydd.

Beth all ymgyrchwyr cofrestredig ei wneud?

Bydd unigolion a mudiadau sy'n dod yn ymgyrchwyr cofrestredig yn elwa o:

- gael terfyn gwariant uwch
- mynediad i'r gofrestr etholiadol i helpu eu hymgyrch
- gallu mynychu gorsafoedd pleidleisio, cyfrif pleidleisiau a sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gydymffurfio â'r rheoliadau ar wariant a rhoddion a nodwyd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA 2000). Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig benodi 'person cyfrifol', sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau hyn.

Pan fydd unigolion neu grwpiau yn gwneud cais i'r Comisiwn i ddod yn ymgyrchwyr cofrestredig, rhaid iddynt gofrestru ar gyfer canlyniad penodol y refferendwm.

Beth yw ymgyrchwyr blaen?

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn i fod y grŵp ymgyrchu blaen yn cynrychioli naill ochr y ddadl.

Gall y Comisiwn benodi ymgeiswyr sy' cynrychioli'n ddigonol y rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer pob canlyniad yn unig. Bydd y Comisiwn yn gwneud y penderfyniad hwn erbyn 29 Mawrth ar yr hwyraf.

Y manteision i'r ymgyrchwyr blaen yw:

- terfyn gwariant uwch nac ymgyrchwyr cofrestredig eraill
- gallu anfon deunydd drwy'r post drwy radbost
- darllediadau ymgyrch y refferendwm
- defnydd am ddim o ystafelloedd cyhoeddus penodol i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus
- grant a weinyddwyd gan y Comisiwn Etholiadol

Gall y Comisiwn benderfynu nad yw unrhyw un yn cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu dros ganlyniad penodol yn ddigonol, ac felly peidio â dynodi ymgyrchwyr blaen. Rhaid i'r Comisiwn ddynodi ymgyrchwyr blaen i ddwy ochr canlyniad y refferendwm neu ddim o gwbl.

Faint fydd yr ymgyrchwyr blaen yn y refferendwm yn ei gael fel grant?

Mae PPERA 2000 yn nodi y gall y Comisiwn roi grant o hyd at fwyafswm o £600,000, i bob ymgyrchydd blaen mewn refferendwm.

Mae'r Comisiwn yn pennu lefel y grant, gan ystyried ffactorau fel nifer yr etholwyr a hyd cyfnod y refferendwm. Y grant i bob un o'r ymgyrchwyr blaen yn y refferendwm ar y system bleidleisio i Senedd y DU fydd £380,000.

Gall ymgyrchwyr blaen ddefnyddio'r grant i dalu am gostau sefydlu ac isadeiledd eu hymgyrch, fel dodrefn swyddfa a chyfarpar cyfrifiadurol. Nid ydynt yn cael defnyddio'r grant i dalu costau deunydd ymgyrchu.

Beth yw'r terfynau gwariant i ymgyrchwyr?

Mae PPERA 2000 yn gosod y terfynau gwariant i ymgyrchwyr cofrestredig ac ymgyrchwyr blaen ar gyfer refferenda DU-gyfan.

Bydd y terfyn gwariant i bleidiau gwleidyddol sy'n cofrestru gyda'r Comisiwn fel ymgyrchwyr refferendwm yn dibynnu ar eu cyfran o'r bleidlais yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn 2010.

Rhestrir y terfyn gwariant i wahanol ymgyrchwyr isod:

Ymgyrchydd refferendwm	Terfyn gwariant
Ymgyrchwyr blaen	£5,000,000
Y Blaid Geidwadol	£5,000,000
Y Blaid Lafur	£4,000,000
Y Democratiaid Rhyddfrydol	£4,000,000
Pleidiau gwleidyddol eraill	£500,000
Ymgyrchwyr cofrestredig	£500,000
Ymgyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol	£10,000

A oes rhaid i ymgyrchwyr adrodd am roddion y maent yn eu derbyn?

Oes. Mae'r gyfraith yn ei wneud yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gynnwys yr holl roddion dros £7,500 yn eu hadroddiad gwariant ymgyrchu a gyflwynwyd i'r Comisiwn Etholiadol ar ôl y refferendwm. Yna bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'r adroddiadau gwariant. Nid oes rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig sydd hefyd yn bleidiau gwleidyddol gynnwys manylion rhoddion yn eu ffurflenni gwariant, gan fod yn rhaid i bleidiau adrodd am roddion eisoes ar sail chwarterol i'r Comisiwn.

Mae rhoddion yn cynnwys arian, nwyddau neu wasanaethau a roddwyd i'r ymgyrchydd yn ddi-dâl neu ar delerau anfasnachol. Gall ymgyrchwyr cofrestredig dderbyn rhoddion sy'n fwy na £500 os ydynt o ffynhonnell a ganiateir yn unig. Rhaid i'r ffynhonnell fod yn un a ganiateir ar yr adeg y gwneir y rhodd. Mae ffynonellau a ganiateir yn cynnwys:

- unigolyn a gofrestrwyd ar gofrestr etholiadol y DU
- cwmni a gofrestrwyd yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur a gofrestrwyd yn y DU
- cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd yn y DU
- partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig a gofrestrwyd yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig a leolwyd yn y DU sy'n cynnal gweithgareddau yn y DU

Gall pleidiau gwleidyddol a gofrestrwyd yn y DU wneud rhoddion i ymgyrchwyr sydd wedi'u penodi gan y Comisiwn yn ymgyrchwyr blaen yn y refferendwm yn unig.

Y 'person cyfrifol' ar gyfer pob ymgyrchydd cofrestredig sy'n gyfrifol am adrodd am roddion i'r Comisiwn a gwirio eu bod yn cael eu caniatáu cyn eu derbyn.

A oes rhaid i ymgyrchwyr adrodd am wariant ymgyrchu?

Oes. Yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gadw cofnod o wariant ar weithgareddau y'u bwriedir i arwain at ganlyniad penodol yn y refferendwm, fel hysbysebu, deunyddiau digymell, ymchwil, cynadleddau'r wasg, ralïau a digwyddiadau eraill. Bydd y Comisiwn yn monitro gwariant yn ystod cyfnod y refferendwm.

Rhaid i ymgyrchwyr gadw anfonebau a derbynebau ar gyfer unrhyw eitem o wariant o fwy na £200. Rhaid cynnwys cost ymgyrchu ar-lein – fel adeiladu gwefannau – hefyd.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig hefyd adrodd am eitemau (h.y. taflenni) neu wasanaethau a brynwyd cyn cyfnod y refferendwm ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod, a chost dybiannol lawn eitemau neu wasanaethau a roddwyd am ddim neu ar gyfradd anfasnachol.

Nid oes rhaid i ymgyrchwyr gynnwys amser gwirfoddolwyr, rhentu swyddfa a biliau swyddfa, treuliau a dalwyd allan o arian cyhoeddus (er enghraifft, diogelwch ar gyfer ymweliadau pwysigion) neu'r defnydd o ystafelloedd cyhoeddus gan ymgyrchwyr blaen yn eu hadroddiad gwariant ymgyrchu.

Mae hysbysebion yn y wasg gan ymgyrchwyr yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgyrchu ac mae'n rhaid eu cynnwys mewn adroddiadau gwariant ymgyrchu. Fodd bynnag, mae cynnwys newyddion ac erthyglau golygyddol sy'n

ymddangos mewn papurau newydd neu ar sianeli darlledu trwyddedig wedi'i eithrio rhag rheoliadau gwariant ymgyrchu.

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr gyflwyno adroddiadau ar wariant ymgyrchu i'r Comisiwn o fewn tri mis i ddyddiad i bleidlais os bu iddynt wario hyd at £250,000 ac o fewn chwe mis os bu iddynt wario mwy na £250,000. Yna bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei wefan.

Rhaid i ymgyrchwyr sy'n gwario dros £250,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm sicrhau fod archwiliwr annibynnol yn ardystio eu hadroddiad gwariant.

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno rhybudd o gosb i ymgyrchwyr nad ydynt yn cyflwyno'u hadroddiad gwariant ar amser.

Pwy sy'n sicrhau bod pleidiau yn cydymffurfio â chyfyngiadau gwariant?

Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod ymgyrchwyr cofrestredig ac ymgyrchwyr blaen yn cydymffurfio â PPERA 2000 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.

Bydd y Comisiwn yn asesu honiadau fod ymgyrchydd wedi torri'r gyfraith yn unol â'i bolisi cyhoeddedig ar ymdrin â honiadau a bydd y Comisiwn yn rhoi adolygiad neu archwiliad ar waith lle mae rheswm i gredu bod ymgyrchydd wedi torri'r gyfraith.

Ers 1 Rhagfyr 2010, mae'r Comisiwn wedi cael mynediad i ystod newydd o bwerau a sancsiynau mewn perthynas â'i rôl fel rheoleiddiwr cyllid etholiadau a refferenda pleidiau. Mae'r sancsiynau newydd sydd ar gael i'r Comisiwn yn cynnwys:

- cosbau ariannol sefydlog o £200
- cosbau ariannol amrywiol o £250 hyd £20,000
- hysbysiadau cydymffurfio er mwyn ei wneud yn ofynnol i unigolyn neu fudiad nad yw'n cydymffurfio ymgymryd â chamau penodol er mwyn dechrau cydymffurfio eto
- hysbysiadau adfer er mwyn ei wneud yn ofynnol i'r unigolyn neu'r mudiad nad yw'n cydymffurfio ymgymryd â chamau penodol i adfer y sefyllfa, cyn belled ag y bo'n bosib i'r ffordd y byddai wedi bod cyn i'r diffyg cydymffurfio ddigwydd
- hysbysiadau stopio er mwyn ei wneud yn ofynnol i unigolyn neu fudiad atal gweithgaredd sydd wedi arwain at, neu sy'n debygol o arwain at ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol
- ymgymeriadau gorfodi, lle mae sefydliad neu unigolyn yn cytuno i ymgymryd â chamau penodol i ddod â hwy i mewn i gydymffurfiaeth neu adfer y sefyllfa, cyn belled ag y bo'n bosib i'r ffordd y byddai wedi bod cyn i'r diffyg cydymffurfio ddigwydd

Am fwy o wybodaeth, gweler adran orfodi ein gwefan: www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement. Mae hyn yn cynnwys manylion sut mae'r Comisiwn yn ymdrin â honiadau.

5 Deunyddiau a darllediadau ymgyrchu

A oes unrhyw rwystrau yn eu lle i gyrff cyhoeddus sy'n dymuno ymgyrchu yn y refferendwm?

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA 2000) yn gosod cyfyngiadau ar gyhoeddi unrhyw ddeunydd ymgyrchu mewn perthynas â'r refferendwm gan lywodraeth ganolog a lleol yn ystod y cyfnod 28 diwrnod sy'n dod i ben gyda dyddiad y bleidlais.

Beth yw'r rheolau ar ddidueddrwydd gwleidyddol i wneuthurwyr darllediadau a rhaglenni?

Mae rheolau ynghylch didueddrwydd gwleidyddol mewn rhaglenni teledu a radio. Rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r canllawiau neu'r cod golygyddol sy'n berthnasol i'r darlledwr penodol hwnnw.

Nid yw'r rheolau hyn ar ddidueddrwydd gwleidyddol yn berthnasol i gyfryngau argraffu.

Gellir gweld canllawiau golygyddol y BBC ar ddarlledu yn ystod etholiad yn www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines. Gellir gweld Cod Darlledu Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes.

A yw ymgyrchwyr blaen yn cael darllediadau ar y teledu?

Mae PPERA 2000 yn ei wneud yn ofynnol i ddarlledwyr penodol ddangos darllediadau ymgyrchu refferendwm ar ran ymgyrchwyr blaen. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i ITV1, Channel 4, Five, talkSPORT, Virgin AM a Classic FM.

Mae'n ofynnol ar y BBC i ddangos darllediadau o dan ei Siarter a Chytundebau. Nid yw'r ofynnol ar Sky i ddangos darllediadau refferendwm ond mae wedi eu dangos yn wirfoddol yn y gorffennol.

Cyfrifoldeb y darlledwyr dan sylw yw pennu hyd ac amlder darllediadau ymgyrchu refferendwm y maent yn eu darparu i ymgyrchwyr blaen. Rhaid i ddarlledwyr ystyried barn y Comisiwn ar y mater.

Rhaid i ymgyrchwyr ddarparu cynnwys y darllediad a thalu cost cynhyrchu'r darllediad.

Ar gyfer y diweddaraf ar farn y Comisiwn ar ddarllediadau etholiadau a refferenda, gweler gwefan y Comisiwn: www.electoralcommission.org.uk/about-us/roles-and-responsibilities/party-election-broadcasts.

Rhaid i ymgyrchwyr blaen gynnwys costau cynhyrchu eu darllediad refferendwm yn yr adroddiad gwariant ymgyrchu, ond nid oes angen iddynt gynnwys gwerth yr amser darlledu.

Beth yw gwasgnodau?

'Gwasgnod' yw enw a chyfeiriad argraffwr a hyrwyddwr unrhyw ddeunydd ymgyrchu. Pwrpas gwasgnod yw er mwyn i bleidleiswyr fod yn glir am ffynhonnell gwybodaeth ymgyrchu.

Rhaid i'r holl ddeunyddiau ymgyrchu a argraffwyd (h.y. posteri, placardiau a thaflenni a ddosbarthwyd at ddiben hyrwyddo canlyniad penodol y refferendwm) gynnwys gwasgnod.

Nid yw'n ofynnol cynnwys gwasgnodau ar ddeunyddiau electronig – fel gwefannau neu tweets – ond mae'r Comisiwn yn argymell eu bod yn eu cynnwys fel mater o arfer da.

.

6 Twyll etholiadol

Pa fathau o droseddau etholiadol sy'n bodoli?

Mae nifer o droseddau o dan ddeddfwriaeth etholiadol a allant godi yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae camymddygiad etholiadol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) yn drosedd. Byddai'r heddlu priodol yn archwilio honiadau o'r fath.

Llwgrwobrwyo

Bydd person yn euog o lwgrwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian, yn caffael unrhyw swydd ar gyfer neu ar ran unrhyw bleidleisiwr, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio, neu i beidio â phleidleisio.

Dylanwad gormodol

Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os bydd yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu rwystr, neu'n achosi neu'n bwriadu achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn ysgogi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

Cyfrinachedd

Dylai pawb sy'n rhan o broses y refferendwm fod yn ymwybodol o gyfrinachedd y bleidlais o dan Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Personadu

Dyma lle mae unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (p'un a yw'r person hwnnw yn fyw neu'n farw neu'n berson ffug), naill ai drwy'r post neu'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio fel etholwr, neu fel dirprwy.

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio drwy ddirprwy

Mae amryw droseddau ynghylch pleidleisio lluosog a phleidleisio drwy ddirprwy, yn cynnwys pleidleisio fel etholwr neu ddirprwy pan yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio a phleidleisio fwy nag unwaith yn y refferendwm.

Gwybodaeth gofrestru anwir

Mae'r drosedd darparu gwybodaeth gofrestru anwir i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth anwir mewn perthynas â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Gellir gweld manylion pellach a'r cosbau am droseddau etholiadol yn ein harweiniad a grëwyd ar y cyd gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn yr Alban. Mae hwn ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/integrity-guidance/electoral-events.

Beth mae'r Comisiwn yn ei wneud i atal twyll etholiadol?

Rydym yn gweithio'n agos â Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ymgyrchwyr, yr heddlu ac erlynwyr i fynd i'r afael â chamymddygiad. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu arweiniad a chanllaw poced i droseddau etholiadol i swyddogion yr heddlu, gweithwyr post a gweithwyr pleidiau.

Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith o 'Bwyntiau Cyswllt Unigol' etholiadol ym mhob un o'r heddluoedd ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Pa droseddau y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu harchwilio?

Mae **troseddau cysylltiedig â gwariant** hefyd – amrywiol droseddau yn cynnwys troseddau yn ymwneud â therfynau treuliau ymgyrchu, adroddiadau gwariant ymgyrchu, gofynion cyfrifeg pleidiau a rheoliadau rhoddion (gweler Adran 4). Gall y rhain fod yn berthnasol i bleidiau gwleidyddol, unigolion a mudiadau eraill sy'n ymwneud ag ymgyrchu etholiadol.

7 Cofrestru i bleidleisio

Faint o bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y DU?

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, roedd 45,420,808 o etholwyr Seneddol wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y DU ar 1 Rhagfyr 2009.

Amcangyfrifodd adroddiad gan y Comisiwn yn 2005 – *Understanding electoral registration* – fod rhwng 91% a 92% o etholwyr cymwys yng Nghymru a Lloegr wedi'u cofrestru i bleidleisio, a bod nifer o grwpiau sy'n llai debygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Cafodd ymchwil gan y Comisiwn mewn wyth ardal astudiaeth achos ar draws Prydain Fawr yn 2010 fod pobl sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar, pobl ifanc a myfyrwyr, y rheiny sy'n byw mewn llety wedi'i rentu, a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig penodol yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Mae ymchwil ar wahân gan y Comisiwn Etholiadol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd wedi canfod fod personél y lluoedd arfog yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Mae adroddiad 2005 y Comisiwn, *Understanding electoral registration*, a'u hadroddiad 2010, *Completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain,* ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/publications-and-research/policy-and-research. Mae'r ffigurau cofrestru mwyaf diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (wedi'u didoli yn ôl ardal llywodraeth leol) ar gael yn www.statistics.gov.uk.

Sut gall rhywun gofrestru i bleidleisio ar gyfer y refferendwm?

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cofrestru i bleidleisio gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu hawdurdod lleol, neu fynd i www.aboutmyvote.co.uk ac argraffu ffurflen gofrestru. Bydd y Comisiwn hefyd yn cynnal llinell gymorth i bleidleiswyr. Byddwn yn diweddaru'r llawlyfr hwn gyda rhif y llinell gymorth pan fydd ar gael.

Rhaid i bleidleiswyr yn Lloegr a Cymru sicrhau bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu hawdurdod lleol yn derbyn eu cais i gofrestru erbyn **canol nos ar ddydd Iau 14 Ebrill 2011** os ydynt am bleidleisio yn y refferendwm.

Rhaid i bleidleiswyr yn yr Alban sicrhau bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu hawdurdod lleol yn derbyn eu cais i gofrestru erbyn **canol nos ar ddydd Gwener 15 Ebrill 2011**.

Rhaid i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon sicrhau bod eu swyddfa etholiadol ardal leol yn derbyn eu cais i gofrestru erbyn **hanner nos ar ddydd Iau 14 Ebrill 2011.**

Sut mae dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor yn cofrestru i bleidleisio?

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor gofrestru fel 'pleidleisiwr tramor' a phleidleisio yn etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau Senedd Ewrop am 15 mlynedd ar ôl y tro diwethaf iddynt fod wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y DU. Gallant bleidleisio hefyd yn y refferendwm ar system bleidleisio Senedd y DU.

Os oedd rhywun yn rhy ifanc i'w cynnwys ar y gofrestr etholiadol pan gadawsant y DU, gallant gofrestru i bleidleisio yn yr ardal lle y cofrestrwyd eu rhiant neu warcheidwad ddiwethaf.

Gall pleidleiswyr tramor wneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy, ond bydd angen iddynt ystyried y terfynau amser priodol i becyn pleidleisio drwy'r post eu cyrraedd ac yna ei ddychwelyd i'r DU. Gallai pleidlais drwy ddirprwy fod yn fwy priodol i lawer o bleidleiswyr tramor.

Ni ellir anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post i bleidleiswyr sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon i gyfeiriad y tu allan i'r DU.

Sut mae aelodau'r lluoedd arfog yn cofrestru i bleidleisio?

Gall personél y lluoedd a'u priod neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref yn y DU fel pleidleisiwr arferol neu fel 'pleidleisiwr y lluoedd'. Mae pleidleiswyr y lluoedd yn cwblhau datganiad y lluoedd arfog, sy'n golygu ei fod yn ofynnol iddynt gofrestru unwaith bob pum mlynedd yn unig.

A all rhywun gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un cyfeiriad?

Gallant. Gall person gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad os ydynt yn preswylio yn y cyfeiriad hwnnw. Gallai fod yn bosib cofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, cyhyd ag yr ydych yn preswylio yn y ddau gyfeiriad.

Er enghraifft, gallai myfyrwyr llawn amser gofrestru yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor a'u cyfeiriad cartref. Mae'n drosedd pleidleisio ddwywaith yn y **refferendwm**, ond gallant ddewis pa gyfeiriad i bleidleisio ynddo.

A all carcharorion bleidleisio?

Cyhyd â'u bod yn cwrdd â'r gofynion cymhwysedd a nodwyd uchod, gall carcharorion sydd ar remand gofrestru a phleidleisio. Ar hyn o bryd, ni all pobl a

gafwyd yn euog sydd yn y ddalfa o ganlyniad i'w dedfryd gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol a ni allant bleidleisio.

Pwy all weld y gofrestr etholiadol?

Mae dau fersiwn o'r gofrestr etholiadol: y gofrestr 'a olygwyd' a'r gofrestr 'lawn'.

Gall pleidleiswyr ddewis peidio â chael eu manylion wedi'u cyhoeddi ar y gofrestr a olygwyd. Gall unrhyw un brynu'r gofrestr a olygwyd o'r swyddfa gofrestru etholiadol leol at unrhyw ddiben, yn cynnwys dibenion masnachol.

Mae'r holl bleidleiswyr wedi'u cynnwys yn y gofrestr lawn. Mae'r gofrestr lawn ar gael i'w gweld ym mhob swyddfa gofrestru etholiadol leol a gall unrhyw un ei gweld o dan oruchwyliaeth. Ni chewch wneud copïau o'r gofrestr lawn.

Mae hawl gan ymgyrchwyr blaen ac ymgyrchwyr cofrestredig gael copïau am ddim o'r cofrestri llawn i bob awdurdod ym Mhrydain Fawr, ac o'r Swyddfa Etholiadol i Ogledd Iwerddon. Ni chânt drosglwyddo'r gofrestr, datgelu unrhyw wybodaeth yn y gofrestr na'i defnyddio at unrhyw ddiben ac eithrio dibenion ymgyrchu.

8 Pleidleisio

Pwy all bleidleisio yn y refferendwm?

I bleidleisio yn y refferendwm hwn, mae angen i bleidleiswyr fod ar y gofrestr etholiadol ac yn:

- 18 oed neu'n hŷn ar 5 Mai 2011, ac
- yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig, neu
- yn ddinesydd y Gymanwlad cymwys[1]

Sut bydd pleidleiswyr yn gwybod am beth y mae'r refferendwm?

Bydd y Comisiwn yn anfon llyfryn gwybodaeth am y refferendwm a'r etholiadau a drefnwyd i bob cartref yn y DU. Bydd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i gymryd rhan yn y refferendwm, yn ogystal ag egluro pwnc y refferendwm.

Bydd yr wybodaeth hon ar wefan y Comisiwn hefyd, a bydd rhif llinell gymorth i'w ffonio os nad yw pleidleiswyr yn derbyn eu llyfryn.

Mae testun y llyfryn wedi'i brofi gan ddefnyddwyr a'i gymeradwyo gan academyddion ac arbenigwyr ar iaith glir, i sicrhau ei fod yn glir ac yn gywir. I weld copi o destun y llyfryn, yn ogystal â manylion y broses ddrafftio, ewch i www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/public-awareness-campaigns/public-information-on-5-May-2011-elections-and-proposed-referendum.

Gwaith ymgyrchwyr, pleidiau gwleidyddol, y cyfryngau ac eraill â diddordeb yn y refferendwm fydd cynnig dadleuon i bleidleiswyr am fanteision pob opsiwn yn y refferendwm.

Sut mae pleidleiswyr yn pleidleisio yn bersonol?

Mae pleidleisio yn y refferendwm yn dilyn yr un broses â phleidleisio mewn etholiadau.

Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ar ddydd lau 5 Mai. Dim ond pleidleiswyr sydd wedi derbyn papur pleidleisio erbyn 10pm fydd yn gallu bwrw eu pleidlais.

[1] Dinesydd y Gymanwlad cymwys yw un sydd â chaniatâd i aros yn y DU neu un nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt.

Os yn pleidleisio yn bersonol, rhaid i bleidleiswyr fynd i'r orsaf bleidleisio gywir ar gyfer yr ardal y maent yn byw ynddi. Bydd Swyddogion Cyfrif yn anfon cardiau pleidleisio allan fydd yn dweud wrth bleidleiswyr ble mae eu gorsaf bleidleisio leol. Os nad oes gan bleidleiswyr gerdyn pleidleisio, gallant gysylltu â'u hawdurdod lleol i gael gwybod ble mae eu gorsaf bleidleisio. Mae manylion cyswllt pob awdurdod lleol ar gael ar www.aboutmyvote.co.uk neu drwy ffonio llinell gymorth y Comisiwn.

Nid oes angen eu cerdyn pleidleisio ar bleidleiswyr i bleidleisio, ond gallai mynd ag ef gyda hwy helpu i gyflymu'r broses.

Yn y refferendwm hwn, dylai pleidleiswyr farcio eu papur pleidleisio gydag un 'X' yn y blwch i'r dde i'r opsiwn y maent yn ei gefnogi, naill ai yr opsiwn 'Dylid' neu 'Na ddylid'.

A oes angen i bleidleiswyr ddod â phrawf adnabod i'r orsaf bleidleisio?

Nid oes angen prawf adnabod ym Mhrydain Fawr. Bydd staff yr orsaf bleidleisio yn gofyn i bleidleisiwr gadarnhau ei enw a'i gyfeiriad, ond nid oes angen i bleidleiswyr ddarparu prawf adnabod er mwyn derbyn papur pleidleisio.

Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i bleidleiswyr gyflwyno modd adnabod ffotograffig yn eu gorsaf bleidleisio i gadarnhau pwy ydynt. Rhaid i bleidleiswyr gyflwyno un o'r canlynol i staff pleidleisio cyn y gellir rhoi papur pleidleisio iddynt:

- pasport DU, Gwyddelig neu UE
- trwydded yrru ffotograffig Gogledd Iwerddon, Prydain Fawr neu EEA
- Smartpass Person Hŷn Translink
- Smartpass 60+ Translink
- Smartpass Anabl y Rhyfel Translink
- Smartpass Person Dall Translink
- Cerdyn Adnabod Etholiadol

Sut gallaf bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Ym Mhrydain Fawr, gall pleidleiswyr ddewis pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy os nad ydynt yn gallu, neu'n dewis peidio â mynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio ar ddydd Iau 5 Mai. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i bleidleisio yn benodol yn y refferendwm ar ddydd Iau 5 Mai 2011, am gyfnod penodol neu'n ddi-ben-draw.

Rhaid i bleidleiswyr ddarparu 'dynodyddion pleidleisio absennol' penodol – eu dyddiad geni a llofnod – wrth wneud cais am bleidlais drwy'r post. Yna bydd gweinyddwyr etholiadol yn gwirio'r rhain pan fydd y pleidleisiwr yn bwrw ei bleidlais, i helpu i atal twyll etholiadol.

Yng Ngogledd Iwerddon, gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy ond rhaid iddynt roi rheswm dilys dros eu cais, er enghraifft:

- anallu i fod yn bresennol oherwydd salwch
- dallineb neu anabledd arall
- absenoldeb ar ddiwrnod y bleidlais oherwydd ymrwymiadau gwaith
- trefniadau gwyliau

Gall pleidleiswyr benodi 'dirprwy' i bleidleisio ar eu rhan mewn gorsaf bleidleisio neu drwy'r post. Rhaid i bleidleiswyr drwy ddirprwy ddweud wrth eu dirprwy pa ganlyniad y refferendwm y maent am bleidleisio drosto.

Ym Mhrydain Fawr, gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy drwy gysylltu â'u Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol, drwy fynd i www.aboutmyvote.co.uk ac argraffu ffurflen gais. Bydd y Comisiwn yn rhedeg llinell gymorth i bleidleiswyr hefyd. Byddwn yn diweddaru'r llawlyfr hwn gyda rhif y llinell gymorth pan fydd ar gael.

Yng Ngogledd Iwerddon, gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy drwy gysylltu â'u swyddfa etholiadol ardal neu drwy fynd i www.eoni.org.uk.

Ym Mhrydain Fawr, y terfyn amser i wneud cais am bleidlais drwy'r post yw **5pm ar ddydd Iau 14 Ebrill 2011**. Y terfyn amser i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yw **5pm ar ddydd Iau 21 Ebrill 2011**.

Yng Ngogledd Iwerddon, y terfyn amser i wneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy yw **5pm ar ddydd Llun 11 Ebrill 2011**.

Pryd fydd pleidleiswyr yn derbyn eu pleidleisiau drwy'r post?

Ym Mhrydain Fawr, ni all swyddogion cyfrif anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post allan tan ar ôl **5pm ar ddydd Iau 14 Ebrill 2011**. Yng Ngogledd Iwerddon, ni ellir anfon pecynnau drwy'r post allan tan ar ôl **5pm ar ddydd Llun 11 Ebrill**.

Rhaid i bleidleiswyr sicrhau bod eu pleidlais drwy'r post yn cael ei derbyn yn ôl gan y Swyddog Cyfrif erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Ym Mhrydain Fawr, gellir postio pecynnau pleidleisio drwy'r post, neu eu rhoi yn ôl yn bersonol i'r Swyddog Cyfrif yn swyddfeydd y cyngor neu fynd â hwy i orsaf bleidleisio yn yr ardal bleidleisio erbyn 10pm ar ddiwrnod y bleidlais.

Yng Ngogledd Iwerddon, gellir postio pecynnau pleidleisio drwy'r post neu eu dychwelyd yn bersonol i'r swyddfa etholiadol ardal leol erbyn 10pm ar ddiwrnod y bleidlais.

Faint o bobl bleidleisiodd yn refferendwm diwethaf y DU-gyfan?

Y refferendwm DU-gyfan diwethaf oedd refferendwm 1975 ar aelodaeth y DU o'r Gymuned Ewropeaidd.

Yn refferendwm 1975, bwriwyd 25,848,654 o bleidleisiau dilys, yn cynrychioli niferoedd o 64% o'r 40,456,877 o etholwyr oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Mae'r tabl isod yn rhoi ffigurau'r nifer a bleidleisiodd ar gyfer refferenda eraill ar draws y DU.[2]

Niferoedd yn pleidleisio mewn refferenda yn y DU

Refferendwm	Blwyddyn	Pleidleisiau dilys	Niferoedd (%)
Aelodaeth y Gymuned Ewropeaidd	1975	25,848,654	64.0
Datganoli yn yr Alban	1979	2,384,439	63.0
Datganoli yng Nghymru	1979	1,199,378	58.3
Sefydlu Senedd i'r Alban[3]	1997	2,386,299	61.9
Sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru	1997	1,112,117	50.1
Cytundeb Gwener y Groglith/Belfast	1998	951,845	81.1
Sefydlu Awdurdod Llundain Fwyaf	1998	1,709,172	34.1
Sefydlu Cynulliad i'r Gogledd Ddwyrain	2004	893,829	47.7

[2] Ffigurau wedi'u cymryd o Colin Rallings a Michael Thrasher, ***British Electoral Facts, 1832–2006*** (Ashgate Publishing: Farnham, 2007).

[3] Gofynnodd y refferendwm ar sefydlu Senedd i'r Alban (1997) ddau gwestiwn i bleidleiswyr: un ar sefydlu Senedd i'r Alban, a'r llall ar roi pŵer i amrywio trethi i'r Senedd honno. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli niferoedd cyfartalog i'r ddau gwestiwn.

9 Cwestiwn y refferendwm

Sut penderfynwyd ar eiriad y cwestiwn?

Mae'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei wneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar ba mor ddealladwy yw cwestiwn arfaethedig y refferendwm. Gwnaeth y Llywodraeth hyn ym mis Gorffennaf 2010.

Cynhaliodd y Comisiwn asesiad (gweler isod) o'r cwestiwn ac awgrymu ailddrafftio er mwyn gwneud y cwestiwn yn haws ei ddeall i bleidleiswyr ar draws y DU.

Derbyniodd y Llywodraeth fersiwn a ailddrafftiwyd y Comisiwn o'r cwestiwn, a dyna'r fersiwn sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau ac y bydd yn cael ei gyflwyno i bleidleiswyr ar 5 Mai 2011.

Beth yw cwestiwn y refferendwm?

Bydd y cwestiwn a gyflwynir i bleidleiswyr ar 5 Mai 2011 yn ymddangos ar y papur pleidleisio, fel y dangosir isod.

Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y DU Pleidleisiwch (X) unwaith yn unig	
Ar hyn o bryd, mae'r DU yn defnyddio system 'y cyntaf i'r felin' i ethol ASau i Dŷ'r Cyffredin. A ddylid defnyddio'r system 'pleidlais amgen' yn ei lle?	
Dylid	
Na ddylid	

Sut gwnaeth y Comisiwn Etholiadol asesu'r cwestiwn?

Nod ein hasesiad oedd sicrhau y byddai'r cwestiwn yn hawdd i bleidleiswyr ei ddeall.

Roedd yr asesiad yn cynnwys cyfnod o ymchwil gyda phobl o wahanol gefndiroedd a gwahanol ardaloedd yn y DU, drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol.

Roedd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn gasglu tystiolaeth ar a oedd pleidleiswyr yn deall y cwestiwn, a pham yr oeddent yn ei chael yn anodd neu'n hawdd ei ddeall.

Ceisiom gyngor hefyd gan arbenigwyr ar hygyrchedd ac iaith glir, a siarad â grwpiau ymgyrchu a phartïon eraill â diddordeb.

Cynhyrchodd y Comisiwn adroddiad ar ein hasesiad o'r cwestiwn arfaethedig ar 30 Medi 2010. Gallwch weld yr adroddiad yn www.electoralcommission.org.uk/elections/upcoming-elections-and-referendums/uk/referendum.

10 Cyfrif y pleidleisiau

Pryd fydd cyfrif y pleidleisiau yn dechrau?

Y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm sy'n gyfrifol am sicrhau cywirdeb, ac ardystio, canlyniad cyffredinol y DU. Blaenoriaeth y Prif Swyddog Cyfrif yw sicrhau bod proses y cyfrif yn cyflwyno canlyniad cywir, ac y bydd y pleidleiswyr yn gallu clywed y canlyniad cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif felly wedi cyfarwyddo Swyddogion Cyfrif lleol i ddechrau cyfrif am 4pm ar y diwrnod yn dilyn y pleidleisio (dydd Gwener 6 Mai), pan fydd y cyfrif ar gyfer yr etholiadau a gynhelir ar draws Prydain Fawr ar 5 Mai wedi'u cwblhau.

Bydd staff y refferendwm yn agor pecynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd hyd at y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod hwnnw, i wirio'r dynodyddion personol cysylltiedig (dyddiad geni a llofnod y pleidleisiwr). Yn y sesiynau agor hyn, rhaid i'r papurau pleidleisio fod wyneb i lawr ac ni fydd staff etholiadau yn cyfrif y pleidleisiau hyn cyn diwedd y bleidlais.

Beth yw'r ardaloedd cyfrif lleol ar gyfer y refferendwm?

Bydd 438 o ardaloedd cyfrif ar draws y DU. Bydd Swyddogion Cyfrif yn cyfrif y pleidleisiau ar sail awdurdod lleol yn Lloegr, ar sail etholaethau Senedd yr Alban yn yr Alban, ac ar sail etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru. Bydd Gogledd Iwerddon yn un ardal gyfrif, ac ni fydd yn cael ei rhannu i mewn i ardaloedd cyfrif lleol a rhanbarthol.

Bydd yr ardaloedd cyfrif hyn yn eistedd o fewn 12 ardal gyfrif ranbarthol, sydd yr un peth â'r ardaloedd etholaethol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop.

Sut caiff y pleidleisiau eu cyfrif?

Bydd Swyddogion Cyfrif yn rhedeg y cyfrif ym mhob ardal gyfrif leol ar draws y DU. Bydd Swyddogion Cyfrif Lleol yn gyfrifol am goladu'r cyfansymiau lleol hyn ar lefel ranbarthol.

Mae cam cyntaf y cyfrif yn cynnwys dilysu'r holl bapurau pleidleisio. Mae staff gorsafoedd pleidleisio yn cofnodi nifer y papurau pleidleisio y maent yn eu cyflwyno i bleidleiswyr. Yna bydd staff cyfrif yn cymharu hyn â nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio y mae staff yn eu dosbarthu i ganolfan y cyfrif.

Dim ond ar ôl i'r pleidleisiau gael eu dilysu y gall cynorthwywyr ddechrau cyfrif y pleidleisiau hyn.

Gall ymgyrchwyr benodi 'asiantau cyfrif' i fod yn bresennol ym mhob cyfrif. Gall asiantau cyfrif arsylwi'r broses gyfrif ar ran ymgyrchwyr, i sicrhau bod y cyfrif yn

cael ei wneud yn y modd cywir. Er enghraifft, gall asiantau cyfrif dynnu sylw staff cyfrif at bapurau pleidleisio amheus neu wrthwynebu gwrthod papurau pleidleisio y mae staff y cyfrif wedi'u nodi fel rhai amheus.

Mae'r gyfraith yn gwahardd asiantau cyfrif rhag trin papurau pleidleisio. Rhaid i unrhyw un sy'n bresennol yn y cyfrif (neu unrhyw weithdrefn etholiadol) barchu cyfrinachedd y bleidlais.

Ar ôl i'r Swyddog Cyfrif Lleol gyfrif yr holl bleidleisiau, byddant yn anfon cyfansymiau lleol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol. Yna bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn eu coladu yn gyfanswm rhanbarthol.

Yna bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn anfon eu canlyniad rhanbarthol i'r Prif Swyddog Cyfrif, fydd yn gweithio gyda'r Dirprwy Prif Swyddog Cyfrif i goladu a chyhoeddi'r cyfansymiau rhanbarthol. Yna byddant yn coladu'r holl gyfansymiau rhanbarthol er mwyn creu canlyniad y DU gyfan. Yna bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn gallu cyhoeddi'r canlyniad cyffredinol.

Sut caiff y canlyniad ei gyhoeddi?

Bydd Swyddogion Cyfrif Lleol yn cyhoeddi cyfansymiau lleol unwaith y bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn fodlon bod cyfanswm cywir ar gyfer eu hardal ac yn eu cyfarwyddo i ardystio'r canlyniad.

Bydd Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn cyhoeddi cyfansymiau rhanbarthol ar ôl i'r Prif Swyddog Cyfrif ardystio bod cyfanswm cywir ar gyfer eu rhanbarth.

Bydd y Prif Swyddog Cyfrif hefyd yn cyhoeddi pob cyfanswm rhanbarthol ym mhrif ganolfan y cyfrif, sef canolfan ExCeL yn Llundain. Y Prif Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am gyhoeddi ac ardystio'r canlyniad cyffredinol, ac y bydd yn gwneud hynny ar ôl i'r holl gyfansymiau lleol gael eu hardystio a'u coladu.

Bydd y Comisiwn yn dangos yr holl gyfansymiau lleol a rhanbarthol a'r canlyniad DU-gyfan ar ei wefan refferendwm – www.aboutmyvote.co.uk/referendums – ar sail amser go iawn. Bydd hyn yn cynnwys y cyfansymiau ar gyfer pob ardal gyfrif leol, cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 12 rhanbarth a'r canlyniad DU-gyfan, yn ogystal â gwybodaeth arall fell ffigurau y niferoedd yn pleidleisio.

A all y cyfryngau fod yn bresennol yn y cyfrif?

Gall aelodau'r cyfryngau wneud cais i'r Swyddog Cyfrif lleol neu ranbarthol perthnasol am achrediad os ydynt am fod yn bresennol mewn cyfrif lleol neu ranbarthol, ac i'r Prif Swyddog Cyfrif (drwy'r Comisiwn Etholiadol) os ydynt am fod yn bresennol yn y digwyddiad coladu canolog a redir gan y Prif Swyddog Cyfrif yn Llundain.

Dylai aelodau'r cyfryngau lynu at unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y Swyddogion Cyfrif, y Dirprwy Prif Swyddog Cyfrif, y Prif Swyddog Cyfrif neu eu

staff. Nid oes yn rhaid i staff y refferendwm ganiatáu i aelodau'r cyfryngau ddod i mewn i'r cyfrifiadau neu'r digwyddiad coladu canolog.

Bydd y Comisiwn yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau ar sut i wneud cais am achrediad cyn y cyfrif.

11 Ar ôl y refferendwm

A all rhywun herio canlyniad y refferendwm?

Byddai'n rhaid i unrhyw un oedd am herio canlyniad y refferendwm wneud cais i'r Uchel Lys am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol.

Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos i'r Llys bod ganddynt ddiddordeb digonol yn y refferendwm. Y Llys sydd i bennu a oes gan yr ymgeisydd ddiddordeb digonol.

Rhaid i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol o fewn chwe wythnos o ardystio canlyniad y refferendwm gan y Prif Swyddog Cyfrif. Dim ond os bydd Llys yn rhoi ei ganiatâd y byddai'r Llys wedyn yn clywed yr adolygiad barnwrol.

Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd herio penderfyniad, gweithred neu hepgoriad penodol y mae'r ymgeisydd yn honni oedd yn anghyfreithlon a'i fod wedi effeithio ar ganlyniad y refferendwm.

Beth sy'n digwydd os yw'r her yn llwyddiannus?

Os yw'r Llys yn pennu bod penderfyniad, gweithred neu hepgoriad yn anghyfreithlon, gall orchymyn gosod canlyniad y refferendwm naill ochr, neu, mewn rhai achosion, gall y Llys ddatgan y canlyniad cywir.

Ni all y Llys orchymyn ail gynnal y refferendwm. Pe byddai'r refferendwm yn cael ei roi naill ochr, byddai'n rhaid i Senedd y DU basio deddfwriaeth er mwyn i'r refferendwm gael ei gynnal eto.

A yw canlyniad y refferendwm yn rhwymol?

Defnyddir y system 'pleidlais amgen' ar ôl cwblhau adolygiad o ffiniau etholaethau Seneddol y DU. Bydd hyn yn digwydd rhwng 2011 a 2013. Bydd yr adolygiad hwn yn digwydd waeth bynnag yw canlyniad y refferendwm.

Ar ddiwedd yr adolygiad, bydd Senedd y DU yn pleidleisio ar gyflwyno'r ffiniau newydd. Os byddant yn cael eu cyflwyno, defnyddir y system 'pleidlais amgen' ar gyfer yr holl etholiadau i Dŷ'r Cyffredin yn y dyfodol.

Atodiad A

Rhestr o Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ym Mhrydain Fawr a'r Swyddog Cyfrif i Ogledd Iwerddon

Rhanbarth y refferendwm	Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
Gogledd Ddwyrain	Dave Smith, Cyngor Dinas Sunderland
Gogledd Orllewin	Syr Howard Bernstein, Cyngor Dinas Manceinion
Swydd Efrog a'r Humber	Tom Riordan, Cyngor Dinas Leeds
Dwyrain Canolbarth Lloegr	Perry Holmes, Cyngor Dinas Caerlŷr
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Stephen Hughes, Cyngor Dinas Birmingham
Dwyrain	David Monks, Cyngor Dosbarth Swydd Huntingdon
Llundain	Barry Quirk, Cyngor Lambeth
De Ddwyrain	Mark Heath, Cyngor Dinas Southampton
De Orllewin	Paul Morris, Cyngor Bwrdeistref Poole
Yr Alban	Mary Pitcaithly, Cynullydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban
Cymru	Bryn Parry Jones, Cyngor Sir Penfro
Gogledd Iwerddon	Graham Shields, Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer ein swyddfeydd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhan-barthau Lloegr tu fewn i glawr cefn yr adnodd hwn.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocratiadd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif